



## Ysgol Pentreuchaf

### 39. Polisi Cyfrifoldebau Cydlynwyr Cwricwlaidd

Er nad yw'n rhaid i athrawon dderbyn 'cyfrifoldeb' am bwnc heb gael lwfans am wneud hynny, mae'n hollol amhosibl talu 12 lwfans! Rydym wedi trafod fel staff ac mae pawb yn fodlon ysgwyddo'r baich er lles y plant.

#### Canllawiau

1. Dilyn meini prawf yr AALI. a bod yn effro i ddatblygiadau diweddar yn y maes.
2. Y Cydlynnydd i ddarllen unrhyw ddogfennau perthnasol i'r pwnc a chynghori'r staff e.e. beth ddylai gael sylw, dogfennau, llyfrau, safweoedd a.y.y.b.
3. Y Cydlynnydd i fynychu cyrsiau perthnasol ac adrodd yn ôl i'r staff.
4. Codi ymwybyddiaeth athrawon o'r maes dan sylw a'i gyfraniad i weddill y cwricwlwm gan drafod cysylltiadau trawsgwricwlaidd. Rhannu arferion effeithiol rhwng athrawon.
5. Arwain gweddill yr athrawon i lunio, datblygu ac adolygu Polisiau ar gyfer yr ysgol.
6. Gwneud arolwg rheolaidd o'r Cynlluniau Gwaith gan ddarganfod a datblygu cyfleoedd ar gyfer cyflwyno'r maes dan sylw. Datblygu'r Cynllun Gwaith ar y cyd gyda gweddill yr athrawon ac athrawon yr ysgol glwstwr. Cynorthwyo'r athrawon i gynllunio gan gyferio at ADY, Cyfle Cyfartal, Cwricwlwm Cymreig, Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith, Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Byd Eang, Bwyd a Ffitrwydd, Ystod, Sgiliau ar draws y Cwricwlwm ( Datblygu Meddwl, Cyfathrebu, TGCh a Rhif), Dilyniant a Pharhad, Asesiadau Risg, Diogelwch a Pholisiau perthnasol ynghŷd â Medrau Allweddol, Medrau Meddwl, Medrau Dysgu, yr hiliol, entrepreneuriaeth a.y.y.b.
7. Sicrhau fod Polisiau a Chynlluniau Gwaith yn cael eu gweithredu.
8. Arwain trafodaethau ynglŷn â'r angen i ddarparu gwaith gwahaniaethol gan gofio bod mwy nac un oedran ym mhob dosbarth, a'r angen am gyfle cyfartal.
9. Lledaenu gwybodaeth am arfer dda o fewn y maes – cysondeb yn y dulliau dysgu drwy gyd-drafodaeth a thrwy godi ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n effeithiol.
10. Sicrhau datblygiad Addysg Personol a Chymdeithasol gan gofio ei fod yn treiddio i bob maes.
11. Darganfod anghenion a blaenoriaethau o fewn y maes a'u trafod er mwyn eu bwydo i mewn i Gynllun Datblygu'r ysgol fel bo'r angen.
12. Darganfod ac ymateb i anghenion Hyfforddiant Mewn Swydd, gan gynnwys hunan-ddatblygiad, trwy fynychu H.M.S. perthnasol, rheadru gwybodaeth i weddill y staff, cysylltu gydag ysgolion eraill a.y.y.b.
13. Monitro datblygiad y maes yn yr ysgol drwy gydweithio gydag athrawon eraill ac athrawon yr ysgol glwstwr a monitro'r hyn a wneir gan ddisgyblion, (cynlluniau'r athrawon, gwaith plant, trafod gyda'r plant a.y.y.b.) yn arbennig yn nhermau'r cynnydd a wneir o flwyddyn i flwyddyn. Monitro safonau drwy ymweld â dosbarthiadau ac edrych ar waith plant. Trafod data ble bo hynny'n ymarferol.

14. Datblygu, ar y cyd gydag athrawon eraill, weithgareddau asesu i ddarganfod beth y mae'r dysgwyr yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Rhoi arweiniad yn y broses o lefelu gwaith plant ar gyfer y Portffolio Ysgol a sicrhau bod Portffolio gyfredol ar gael i bob aelod o staff.

15. Arfarnu, ar y cyd gydag athrawon dosbarth, berfformiad yr ysgol mewn 'profion' ac asesiadau ffurfiol (ble bo hynny'n berthnasol), dadansoddi cwestiynau, cymharu â gwybodaeth feincnodol a.y.y.b. a chynllunio i wella'r ddarpariaeth.

16. Cynnal a datblygu'r cyswllt Cynradd / Uwchradd.

17. Cynnal cyswllt gyda'r Corff Llywodraethol - adrodd iddynt ar y maes, cyflwyno adroddiadau Monitro, eu croesawu i'r ysgol i weld Cynlluniau Gwaith, arsylwi gwersi a.y.y.b.

18. Gwneud arolwg o'r adnoddau sydd yn yr ysgol gan gynnwys caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol. Arfarnu'r adnoddau a throsglwyddo gwybodaeth amdanynt i weddill yr athrawon.

19. Cefnogi a chynghori athrawon ble bynnag bo angen.

**Adolygir: Chwefror 2017**

**Arwyddwyd: \_\_\_\_\_, Cadeirydd y Llywodraethwyr**

**Dyddiad: \_\_\_\_\_**